Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus Am Orchmynion a Rheoliadau Cynllun Rhyddhad Ardrethi Busnes Bach

Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad i Fusnesau Bach) (Cymru) 2006
Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu a Rhyddhad yn ôl Disgresiwn) (Diwygio) 2006
Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol 2003 (Cychwyn Rhif 1 ac Arbedion) (Cymru) 2006
Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2006

Ystyriodd y Pwyllgor y Gorchmynion a'r Rheoliadau yn ei gyfarfod ar 23 Tachwedd 2006.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad o'r canlynol:

- y cyfraniad a wnaed gan bob awdurdod lleol i hybu mesurau i roi rhyddhad i fusnesau o dan y cynllun presennol;
- a ystyriwyd cyflwyno cynllun trosiannol;
- o ran swyddfeydd post sy'n rhan o fusnes mwy, er enghraifft gorsaf betrol, tafarn neu siop, a yw'r gwerth ardrethol a ystyrir ar gyfer rhyddhad swyddfeydd post hefyd yn cynnwys gwerth ardrethol y busnes ychwanegol neu a ydynt yn cael eu hystyried ar wahân;
- pam na chafodd carafannau eu heithrio o'r cynllun er bod hyn wedi digwydd yn achos eiddo hunan-ddarpar

Cafwyd ymateb ysgrifenedig manwl gan y Gweinidog cyn y cyfarfod yn delio â'r tri phwynt cyntaf - (LGPS(2)-16-06(p.3b)). Wrth ymateb yn y cyfarfod, gwnaeth y Gweinidog y pwyntiau ychwanegol a ganlyn:

- Roedd cyllid ar gael eisoes i awdurdodau lleol helpu achosion eithriadol drwy gynllun i roi rhyddhad oherwydd caledi. Caiff 25% o'r cynllun caledi ei ariannu gan yr awdurdodau lleol a chaiff 75% ei ariannu gan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Byddai'r arbedion o'r 10% y mae'n rhaid i awdurdodau lleol ei gyfrannu ar hyn o bryd tuag at gost rhyddhad ardrethi gwledig dewisol yn cael ei osod yn erbyn y 25% y maent yn gorfod ei dalu. Hefyd, byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu cael hyd i'r 75% y mae angen iddi ei gyfrannu o'r arbedion a wnaiff yn sgil y cynllun presennol. Roedd y Gweinidog yn bwriadu ysgrifennu at awdurdodau lleol ynghylch rhoi rhyddhad i fusnesau sy'n dioddef caledi.
- Roedd eiddo hunan-ddarpar wedi'i eithrio o'r cynllun yn dilyn sylwadau gan awdurdodau lleol yn ystod y broses ymgynghori. Gall landlordiaid sy'n gosod eu heiddo am ragor o 140 diwrnod y flwyddyn ddewis talu ardrethi busnes, a all fod yn is na'r dreth gyngor. Yn ogystal â lleihau incwm yr awdurdodau, mae hyn yn annog landlordiaid i beidio â gosod eu heiddo drwy gydol y flwyddyn.

Argymhellodd y Pwyllgor y dylid cymeradwyo'r Gorchmynion a'r Rheoliadau drafft.

Ann Jones AC
Cadeirydd